

**Edwina Hart MBE OStJ AM**

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Ein cyf: SF/EH/0203/10

Eich cyf:

Jonathan Morgan AC  
Cadeirydd  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

Bae Caerdydd  
Caerdydd CF99 1NA  
Llinell Ymholiadau Cymraeg: 0845 010 4400  
Ffacs: 029 2089 8131  
E-Bost: Gohebiaeth.Edwina.Hart@cymru.gsi.gov.uk

Cardiff Bay  
Cardiff CF99 1NA  
English Enquiry Line: 0845 010 3300  
Fax: 029 2089 8131  
E-Mail: Correspondence.Edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Annwyl Gadeirydd

Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Gofal Heb ei Drefnu: Datblygu Dull o Weithredu ar sail Systemau Cyfan'

Rwyf yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad sy'n cydnabod y gwelliannau sydd wedi'u gwneud ym maes gofal heb ei drefnu, cymhlethdod y system a sut mae hyn yn dylanwadu ar ddull y Llywodraeth o sicrhau gwelliannau pellach. Mae fy ymateb i'w wyth argymhelliad yn adlewyrchu'r dull o weithredu ar sail system gyfan sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â gwasanaethau gofal heb ei drefnu ac rwyf wedi ystyried y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Drosglwyddo Cleifion a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Ar ôl ystyried canfyddiadau'r adroddiadau hyn, rwyf wedi rhoi nifer o brosesau a chamau gweithredu ar waith a fydd yn mynd i'r afael â'r materion allweddol yn y tymor byr a'r tymor canolig.

Fy nod yw sicrhau bod gwasanaethau gofal heb ei drefnu yn cael eu gwella yn y tymor byr drwy ganolbwyntio'n barhaus ar faterion gweithredol dydd i ddydd. Felly, rwyf wedi llunio nifer o gamau gweithredu i'w cymryd ar unwaith i sicrhau gwelliannau. Bydd y rhain yn cael eu cefnogi gan ddull strategol clir sy'n ceisio trawsnewid y gwasanaeth a symud pwyslais y gofal o ofal eilaidd i ofal sylfaenol a chymunedol. Credaf o bosibl mai dyma'r unig ffordd y gallwn sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor. Yn ddiweddar rwyf wedi cynnwys hyn mewn Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid 5 mlynedd sy'n nodi cyfeiriad clir ar gyfer y GIG, ac sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer

gwelliannau amrywiol i wasanaethau sy'n ofynnol yn ystod y blynyddoedd nesaf (gweler Atodiad 1 am restr fanwl o gamau gweithredu).

Bydd nifer fechan o Raglenni Cyflenwi Cenedlaethol yn cynorthwyo i gyflawni'r nodau a nodir yn y Fframwaith; a gofal heb ei drefnu yw un o'r rhain. Bydd y rhaglen gofal heb ei drefnu yn mynd i'r afael â materion cenedlaethol allweddol a nodir yn yr Adroddiad hwn ac yn darparu'r arweiniad cadarn a chdir sy'n ofynnol yng Nghymru i gyflawni'r newidiadau sylweddol sylfaenol sydd eu hangen yn ôl yr Adroddiad. Bydd hyn yn amlwg yn cymryd blynyddoedd i'w gyflawni o ystyried y gwaith sydd angen ei wneud i newid y system gyfan ac i gyflawni'r newidiadau o ran diwylliant ac ymddygiad sydd eu hangen ymhlith clinigwyr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y GIG, a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae hon yn dipyn o her, ac mae'r ffaith y byddwn yn gwneud y gwaith yn ystod cyfnodau o alw cynyddol a'n bod yn gwybod nad yw'r galw cynyddol hwn yn cael ei ddiwallu yn y manau mwyaf priodol, yn gwneud yr her hon yn anoddach fyth.

Rwyf wedi egluro i'r holl Brif Weithredwyr y dylai gweithredu'r argymhellion hyn gael blaenoriaeth uchel. Mae fy nghydweithwyr yn gwybod yn iawn fy mod yn disgwyl i bob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth y GIG sicrhau'r gwelliannau gofynnol cyn gynted â phosibl, drwy weithredu eu Cynlluniau Cyflenwi Lleol a'r arferion gorau sy'n deillio o'r Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu Genedlaethol. Byddwn yn craffu'n ofalus ar gynnydd pob BILL ac Ymddiriedolaeth GIG wrth iddynt gyflawni'r cynlluniau a gwella perfformiad gweithredol drwy'r trefniadau rheoli perfformiad a nodir yn Fframwaith Gwella Perfformiad y GIG. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfod perfformiad misol rhwng swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a phob sefydliad GIG; cyfarfod misol rhwng y Cyfarwyddwr Cyffredinol a holl Brif Weithredwyr y GIG; ac adolygiad o berfformiad bob chwe mis gyda phob sefydliad GIG lle bydd yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod â Thimau Gweithredol cyfunol pob sefydliad GIG. Mae'r fframwaith hwn yn darparu dull cadarn a llawn her o sicrhau bod cynnydd cyflym yn cael ei wneud wrth sicrhau'r gwelliannau sy'n ofynnol.

I gloi, mae'r ymateb i'r Adroddiad hwn wedi cymryd mwy na'r disgwyl oherwydd natur gymhleth yr her a'r angen i sicrhau ein bod wedi sefydlu prosesau a champau gweithredu clir i fynd i'r afael yn llawn â'r argymhellion. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn rhoi sicrwydd i chi y bydd y dull rydym yn ei ddefnyddio yn darparu gwasanaethau sy'n bodloni disgwyliadau'r bobl sy'n eu defnyddio ac yn gwneud hynny'n gynaliadwy.

## **Ymated Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Gofal heb ei drefnu: datblygu dull o weithredu ar sail systemau cyfan**

### **Argymhelliad 1:**

**Er mwyn cynnwys y cyhoedd yn fwy a'i gwneud yn haws i gael gafael ar wasanaethau gofal heb ei drefnu**

- 1.a. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu strategaeth gyfathrebu genedlaethol i wella dealltwriaeth y cyhoedd o sut y gall gael gafael ar wasanaethau gofal heb ei drefnu yn y ffordd fwyaf priodol.**
- 1.b Dylai'r byrddau iechyd newydd geisio darparu pwyntiau mynediad at ofal heb ei drefnu sy'n adlewyrchu natur y galw yn well, gan gynnwys:**
  - **dylai fod modd cysylltu ag un pwynt mynediad dros y ffôn bob awr o'r dydd a'r nos;**
  - **sefydlu canolfan ar gyfer pob atgyfeiriad at wasanaethau gofal heb ei drefnu ac achosion o drosglwyddo cleifion rhwng rhannau o'r gwasanaeth gofal heb ei drefnu;**
  - **defnyddio system frysbenneu neu asesu gyffredin, gytûn a threfniadau llywodraethu clinigol cytûn;**
  - **cynnal cyfeiriadur o wasanaethau a gaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd.**

**Derbyniwyd yr Argymhellion**

### **Ymateb i'r Argymhelliad**

Mae manylion yr ymateb strategol ar gyfer gwella Gofal Heb ei Drefnu yn y Fframwaith Strategol Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid 5 mlynedd. Bydd yn cael ei yrru gan Raglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu, sydd wedi'i sefydlu bellach. Mae gan y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu amrywiaeth o amcanion allweddol i'w cyflawni, gan gynnwys datblygu strategaeth cynnwys y cyhoedd a chyfathrebu cenedlaethol (***Dyddiad Targed: Tachwedd 2010***) a system llywodraethu clinigol a brysbenneu cyffredin (***Dyddiad Targed: Rhagfyr 2010***)

Mae pob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth wedi datblygu Cynlluniau Cyflenwi Lleol Gofal Heb ei Drefnu ar gyfer 2010/2011, sy'n ystyried yr angen i ddatblygu un pwynt mynediad, canolfannau cyfathrebu a chyfeiriaduron o wasanaethau a gaiff eu diweddarau'n rheolaidd. Mae'r rhain yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu hategu gan y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu a'r rhaglen genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol. (***Dyddiad Targed: Rhagfyr 2010***)

### **Argymhelliad 2:**

**Dylai'r byrddau iechyd newydd:**

- a) gynnal dadansoddiad lleol i dynnu sylw at yr ardaloedd lle nad yw pobl yn gallu cael apwyntiadau gofal sylfaenol ar fyrder yn gyson;**
- b) gweithio gyda meddygfeydd i sicrhau bod eu horiau gwaith yn unol â'r rhai a nodwyd yn y contract ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol;**

- c) gan ddefnyddio canlyniadau eu dadansoddiad lleol, gweithio gyda meddygfeydd i ystyried diwygio eu trefniadau o ran cael gafael ar wasanaethau a'u horiau agor er mwyn diwallu anghenion eu cleifion cofrestredig yn well;
- d) adolygu darpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau yn ardal y bwrdd iechyd.

## **Derbyniwyd yr Argymhellion**

### **Ymateb i'r Argymhelliad**

Mae darparu gwasanaethau gofal hygyrch, effeithlon a sylfaenol yn allweddol i sicrhau gofal heb ei drefnu o ansawdd uchel. Mae rhaglen Diwygio'r GIG, a chreu BILlau integredig newydd, yn darparu'r sylfaen strwythurol ar gyfer integreiddio'r gwasanaeth yn iawn. Cyfrifoldeb Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl yw sicrhau bod dinasyddion yn gallu cael apwyntiadau gofal sylfaenol ar fyrder yn gyson, sicrhau bod gwasanaethau meddygfeydd yn diwallu anghenion lleol o ran oriau agor a darpariaeth y tu allan i oriau meddygfeydd.

Nodwyd y gofynion hyn yn y Fframwaith Gweithredu Blynyddol ar gyfer 2010/2011, ac mae pob BILl wedi datblygu Cynlluniau Cyflenwi Lleol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys dadansoddi achosion mynediad brys i ofal sylfaenol. Bydd Rhaglenni Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Gosod y Cyfeiriad yn ategu'r cynlluniau hyn, gan weithio i wella gwasanaethau meddygfeydd a sicrhau eu bod yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol â gofal eilaidd. Hefyd, bydd parhau i weithredu *Cynllun i Wella Iechyd a Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru: Model a Fframwaith Integredig ar gyfer Gweithredu*, yn cynorthwyo cleifion i aros yn y gymuned a lleihau effaith presenoldeb amhriodol ym maes gofal eilaidd.

### ***Dyddiad targed: Rhagfyr 2010***

Mae gwaith ar droed hefyd i ddatblygu canolfannau cyfathrebu mewn BILlau, i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu nodi a'u cydlynu'n effeithiol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud mewn partneriaeth rhwng y Rhaglenni Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Gofal Heb ei Drefnu.

### **Argymhelliad 3**

#### **Gwella llwybrau gofal:**

- a) Dylai'r byrddau iechyd newydd archwilio eu llwybrau gofal presennol. Dylai'r archwiliadau gynnwys canlyniadau gofal pobl, ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.
- b) Dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud trefniadau i rannu'r gwersi sy'n deillio o'r archwiliadau hyn yn genedlaethol.
- c) Dylai'r byrddau iechyd newydd gydweithio i ddatblygu dull strategol o dreialu llwybrau gofal newydd ledled Cymru.

## **Derbyniwyd yr Argymhellion**

### **Ymateb i'r Argymhelliad**

Mae pob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth wedi datblygu Cynlluniau Cyflenwi Lleol Gofal Heb ei Drefnu ar gyfer 2010/2011, sy'n ystyried yr angen i nodi unrhyw fylchau mewn darpariaeth gwasanaethau a datblygu llwybrau gofal integredig, sy'n ymgorffori gofal sylfaenol, cymunedol, canolraddol, eilaidd a chymdeithasol. Mae nifer o BILlau eisoes wedi dechrau a/neu weithredu amrywiaeth o lwybrau clinigol (gweler atodiad 1).

Bydd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu hefyd yn mynd i'r afael â'r mater hwn ac yn ceisio cydlynu dull strategol rhwng BILlau drwy flaenoriaethu llwybrau gofal prysur a nodi gwaith arferion gorau sydd eisoes wedi'i wneud a'i rannu ledled Cymru.

***Dyddiad targed: Ar unwaith ac ar waith***

### **Ymateb i 3b**

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad drefniadau ar hyn o bryd i rannu dysgu ledled Cymru drwy'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) a'r wybodaeth a'r sgiliau ymarferol y mae'r Uned Cyflenwi a Chymorth yn eu cyfrannu i'r GIG, gan gynnwys llyfrgell genedlaethol o adnoddau ar gyfer gofal heb ei drefnu. Bydd hyn yn cael ei atgyfnerthu a'r potensial ar gyfer sefydlu fforwm dysgu gofal heb ei drefnu cenedlaethol, a fydd yn cael ei archwilio gan y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu.

***Dyddiad targed: Medi 2010***

### **Argymhelliad 4**

**Argymhellwn y dylid gwneud y canlynol:**

- a) Dylai Llywodraeth y Cynulliad hwyluso systemau gwybodaeth cydgysylltiedig ar gyfer darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol.**
- b) Yn y tymor byr, dylai sefydliadau lleol ddatblygu a defnyddio dogfennau trafodion clinigol sy'n darparu manylion am daith claf drwy'r system gofal heb ei drefnu.**
- c) Yn amodol ar werthusiad ffafriol, dylai'r Cofnod Iechyd Unigol gael ei gyflwyno ledled Cymru.**

**Derbyniwyd yr Argymhelliad**

### **Ymateb i'r Argymhelliad**

Mae datblygu systemau gwybodaeth cydgysylltiedig a'r Cofnod Iechyd Unigol yn fater strategol a fydd yn cael ei ddatblygu gan y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu mewn partneriaeth â Hysbysu Gofal Iechyd. Y ddwy brif system TGCh y mae'r Rhaglen Hysbysu Iechyd wedi'u datblygu i fynd i'r afael â'r mater o rannu gwybodaeth am gleifion yw:

- a) Y Cofnod Iechyd Unigol, sy'n sicrhau bod pob clinigwr yn gallu cael mynediad i wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yng nghofnod y feddygfa.**

- b) Porth Clinigol Cymru sy'n gallu darparu un pwynt mynediad i bob clinigwr i wybodaeth am gleifion sydd wedi'i chynnwys yn yr amrywiaeth eang o systemau ysbytai sy'n bodoli yn y GIG yng Nghymru.

Mae'r ddwy system uchod wedi'u datblygu a'u profi ac maent yn cael eu gweithredu bellach ar safleoedd sydd wedi mabwysiadu'r systemau'n gynnar yn y GIG.

Mae'r Cofnod Iechyd Unigol yng ngwasanaeth y tu allan i oriau Aneurin Bevan sy'n cynnwys tua 75 o feddygfeydd (tua 450,000 o gleifion) ac mae'r broses o gyflwyno'n genedlaethol wedi dechrau yn Hywel Dda gyda 11 meddygfa yn Sir Benfro ar hyn o bryd (tua 76,000 o gleifion).

Mae Porth Clinigol Cymru yn gweithredu mewn 5 maes clinigol yn Hywel Dda - 2 ward, 1 adran Cleifion allanol dan arweiniad meddyg ymgynghorol, yr uned arhosiad byr a'r swyddfa nyrs resbiradol.

Maent wedi'u cynnwys yn Fframwaith Gweithredol Blynyddol 2010/11, ynghyd â systemau TGCh eraill a fydd yn ofynnol i ddarparu amrywiaeth cynhwysfawr o wybodaeth am gleifion. Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi datblygu eu cynlluniau ar gyfer gweithredu'r systemau hyn a bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy reoli perfformiad y Fframwaith Gweithredol Blynyddol.

Mae dau brif faes lle mae angen datblygiadau newydd:

- a) Cofnod gofal cymdeithasol cryno sy'n cyd-fynd â'r Cofnod Iechyd Unigol.
- b) System amserlen genedlaethol y gellir ei defnyddio i reoli llwybrau gofal cleifion yn gyson ac yn safonol ledled y GIG yng Nghymru.

Mae cynigion ar gyfer datblygu'r rhain wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid 5 Mlynedd. Mae'r ffactorau a fydd yn pennu cynnydd o ran darparu mynediad ehangach i wybodaeth am gleifion yn cynnwys:-

- a) Lefel y buddsoddiad sydd ar gael ar gyfer datblygiadau TGCh drwy ddyraniadau cyllideb yn y dyfodol a phenderfyniadau am flaenoriaethau.
- b) Gallu BILlau a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymdrin ag ailgynllunio prosesau ac arferion gwaith a fydd yn ofynnol i gefnogi darpariaeth gofal integredig, lle bynnag y darperir y gofal hwnnw.
- c) Mwy o bobl i dderbyn y model rheoli gwybodaeth sydd wedi'i ddatblygu drwy'r prosiect Cofnod Iechyd Unigol yng ngwasanaeth y tu allan i oriau Gwent. Bydd hyn yn pennu pa mor eang yw'r mynediad i wybodaeth am gleifion a phwy sy'n cael mynediad iddi. Y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Reoli Gwybodaeth sydd â chynrychiolwyr proffesiynol eang sy'n gyfrifol am ddatblygiad polisi cyffredinol yn y maes. Mae Hysbysu Gofal Iechyd yn darparu gwybodaeth a phecynnau gweithredu safonedig i gynorthwyo BILlau sy'n gyfrifol am reoli cyfathrebu â gweithwyr clinigol proffesiynol, cleifion a'r cyhoedd ar faterion sy'n ymwneud â chydsyniad a mynediad.

***Dyddiad Targed: Cynhelir trafodaethau rhwng Hysbysu Gofal Iechyd a phob Bwrdd Iechyd Lleol i benderfynu'n derfynol ar y dyddiadau gweithredu***

#### **4.b.**

Yn y tymor byr, bydd Byrddau Iechyd Lleol yn arwain datblygiad dogfennau trafodion clinigol drwy Gynlluniau Cyflenwi Lleol Gofal Heb ei Drefnu ar gyfer 2010/2011. Bydd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Gosod y Cyfeiriad yn cefnogi'r gwaith hwn, gan wella llif gwybodaeth am gleifion fel rhan o'r canolfannau Cyfathrebu Lleol.

***Dyddiad Targed: Ar unwaith ond i'w cwblhau'n derfynol erbyn Mawrth 2011***

### **Argymhelliad 5**

**Gan adeiladu ar gynlluniau cyflenwi lleol tymor byrrach, dylai'r byrddau iechyd:**

- a. Gynnwys byrddau gwasanaethau lleol yn y mater trawsbynciol o ddatblygu system gofal heb ei drefnu gydlynol. Dylai'r byrddau gwasanaethau lleol ofyn am adroddiadau rheolaidd ar gynnydd o ran datblygiad y system gofal heb ei drefnu o leiaf.**
- b. Nodi'n glir y bylchau presennol o ran integreiddio rhwng y gwasanaethau amrywiol a'r ffordd y maent yn bwriadu mynd ati i integreiddio'n fwy a darparu gofal di-dor o safbwynt y dinesydd;**
- c. Gweithio gyda'u partneriaid i gytuno ar gyfres o ganlyniadau dymunol y dylai systemau gofal heb ei drefnu eu cyflawni i'r boblogaeth a wasanaethir ganddynt;**
- d. Heb ganolbwyntio ar dargedau cenedlaethol gorfodol, ystyried pa fesurau a fyddai'n dynodi i'r canlyniadau dymunol hyn gael eu cyflawni'n llwyddiannus.**
- e. Fel blaenoriaeth, llywio eu cynlluniau drwy astudio'r galw a pherfformiad y system gofal heb ei drefnu. Dylai'r data ystyried y canlynol o leiaf:**
- f. Gweithio'n effeithiol gyda gwasanaethau awdurdodau lleol a gwasanaethau yn y sector gwirfoddol er mwyn cynyddu'r gefnogaeth amserol a roddir i bobl i sicrhau nad yw bylchau mewn pwyntiau mynediad at wasanaethau cymunedol na phrinder dewisiadau amgen i wasanaethau ysbytai yn arwain at achosion diangen o dderbyn cleifion i'r ysbyty.**

**Derbyniwyd yr Argymhelliad**

### **Ymateb i'r Argymhelliad**

#### **5 a.- f.**

Bydd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu yn cynorthwyo'r BILlau i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r galw a'r mesurau llwyddiant mewn sawl ffordd:-

- i. datblygu set ddata ofynnol ar gyfer gofal heb ei drefnu. Bydd hyn yn cynnwys galw (math ac amllder) a lefelau gweithgarwch ar draws y system gyfan (o ofal sylfaenol i ofal cymdeithasol).**
- ii. datblygu cyfres o dargedau deallus. Bydd hyn yn cynorthwyo BILlau i fesur ansawdd a chanlyniadau gwasanaethau gofal heb ei drefnu.**

Mae'r BILlau hefyd wedi sefydlu nifer o fecanweithiau i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn:-

- i. maent i gyd wedi sefydlu Byrddau Gofal Heb ei Drefnu yn eu sefydliadau a fydd yn ymgysylltu â phartneriaid allweddol, e.e. Awdurdodau Lleol a'r sector gwirfoddol**

- ii. maent i gyd wedi llunio Cynllun Cyflenwi Lleol sy'n nodi'r galw presennol am wasanaethau ac yn darparu fframwaith ar gyfer cynyddu eu dealltwriaeth o alw a chostau yn y system
- iii. maent i gyd wedi llunio Cynlluniau Cyflenwi Lleol ar gyfer Gofal Sylfaenol, wedi'u seilio ar Gosod y Cyfeiriad, sy'n dangos sut byddant yn cydlynu gofal cleifion yn well i osgoi derbyn pobl yn ddiangen i'r ysbyty
- iv. mae pob BILL yn parhau i weithredu *Cynllun i Wella Iechyd a Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru: Model a Fframwaith Integredig ar gyfer Gweithredu*, gan gynorthwyo cleifion i aros yn y gymuned a lleihau effaith presenoldeb amhriodol ym maes gofal eilaidd.

Mae pob BILL wedi nodi Arweinwyr Gweithredol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu a Chyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol a Chymunedol ac maent yn ymgysylltu'n frwd ag Awdurdodau Lleol a'r sector gwirfoddol i ddatblygu eu cynlluniau gwasanaeth a darpariaeth gwasanaethau integredig sy'n sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu yn nes gartref.

***Dyddiad Targed: Mawrth 2011***

### **Argymhelliad 6**

**Er ei bod yn gywir i osgoi gorfanylu'r system gofal heb ei drefnu, dylai Llywodraeth y Cynulliad gynorthwyo'r byrddau iechyd newydd i wella eu dull strategol o ymdrin â gofal heb ei drefnu drwy:**

- a. **Aros am y gwerthusiad o'r Strategaeth beilot ar gyfer Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol cyn datblygu templed gyffredinol er mwyn helpu cymunedau lleol i'w defnyddio wrth ddatblygu eu strategaethau gofal heb ei drefnu tymor canolig i hirdymor eu hunain,**
- b. **Lle y bo'n briodol, cydgysylltu datblygiadau lleol mewn perthynas â darpariaeth gofal heb ei drefnu ar lefel genedlaethol:**
  - i. **Gweithlu – yn arbennig, dylai'r ymddiriedolaeth ambiwlans a Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu fframwaith clir sy'n fodd i ehangu cwmpas arfer gweithwyr proffesiynol ym maes gofal heb ei drefnu.**
  - ii. **Yr angen i gynlluniau lleol sicrhau gwell parhad rhwng gofal oriau arferol a gofal a ddarperir y tu allan i oriau;**
  - iii. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu dulliau o gynyddu hyblygrwydd gweithluoedd iechyd a llywodraeth leol, a'u haliniad, a ategir gan gyfres o safonau cenedlaethol a chynlluniau hyfforddi a datblygu priodol.**
  - iv. **Wrth ymateb i argymhellion ein hadroddiad ar wahân, egluro rôl bosibl Galw Iechyd Cymru yn y dyfodol, ar lefel Cymru gyfan, yn y system gofal heb ei drefnu ehangach ac annog ei hintegreiddio'n well mewn gwaith cynllunio gwasanaethau lleol er mwyn gwella llif cleifion drwy'r system**

**Derbyniwyd yr Argymhelliad**

**Ymateb i'r Argymhelliad**



## **6a a b(ii). Camau gweithredu allweddol**

Mae *Gosod y Cyfeiriad* wedi nodi'r angen i gryfhau'r gwaith integredig ym maes gofal sylfaenol a chymunedol, a chefnogi rheolaeth effeithiol gofal cleifion yn agos i gartref. Cynhaliwyd cyfres o Ymarferion Pen Desg a hunanasesiadau gan y Grŵp Llywio Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol ledled Cymru i werthuso'r fframwaith.

Roedd canlyniadau'r gwerthusiad yn gadarnhaol ac mae pob BILL wedi llunio Cynllun Cyflenwi Lleol i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Bydd pob BILL yn cael ei gefnogi gan y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol, a fydd yn nodi arferion gorau ac yn eu rhannu gyda phob sefydliad. Bydd y broses o weithredu'r gwaith yn cael ei goruchwyllo gan Fwrdd Sicrwydd Gosod y Cyfeiriad cenedlaethol, yn cael ei gadeirio gan Dr Chris Jones. Bydd y Bwrdd yn cefnogi BILLau ac yn sicrhau bod gofal sylfaenol, cymunedol a chanolraddol yn cael eu halinio a'u hintegreiddio â'r ystod o raglenni cenedlaethol eraill.

Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan bwyslais parhaus ar atal ac ymyrraeth gynnar yn y gymuned, yn enwedig wrth reoli cyflyrau cronig. Mae'r Model a'r Fframwaith ar gyfer Rheoli Cyflyrau Cronig yn nodi cyfarwyddiadau clir ar hyn yn seiliedig ar ofal rhagweithiol wedi'i gynllunio a'i reoli yn y gymuned yn seiliedig ar atal, ymyrraeth gynnar a hunanofal.

Mae'r Rhaglenni Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Gofal Heb ei Drefnu yn canolbwyntio ar yr angen i wasanaethau lleol sicrhau gwell parhad rhwng gofal oriau arferol a gofal a ddarperir y tu allan i oriau, a symud tuag at weithio gydol yr amser gyda llai o wahaniaeth rhwng gofal wedi'i drefnu a heb ei drefnu a mwy o hyblygrwydd wrth drefnu cysylltiad â mathau amrywiol o ofal. Mae'r materion hyn yn cael eu datblygu ar y cyd, a hefyd yn lleol ar lefel BILL o fewn Cynlluniau Cyflenwi Lleol ar gyfer 2010/2011.

### ***Dyddiad Targed: Mawrth 2011***

## **6b. (i)**

Mae gan y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu thema strategol benodol i fynd i'r afael â materion y gweithlu. Mae'r meysydd datblygu allweddol yn cynnwys:-

- Datblygu dull cynllunio'r gweithlu cenedlaethol
- Dadansoddi'r gweithlu
- Darparu cymysgedd staffio/sgiliau priodol i ddiwallu'r angen

Mae llawer o ddatblygiadau penodol yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd sy'n cefnogi'r rhaglen genedlaethol. Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi datblygu'r proffesiwn Parafeddygon yn sylweddol drwy:

- Weithio gyda'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd a Phrifysgol Abertawe i sefydlu rhaglen israddedig ar gyfer newydd-ddyfodiaid.
- Gwella ei rhaglen fewnol gyfredol ar gyfer newydd-ddyfodiaid i Barafeddygaeth drwy ychwanegu modiwl astudio ychwanegol.
- Parhau i ddarparu ei rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus sefydledig.
- Datblygu llwybrau gofal sy'n agored i Barafeddygon (e.e. pobl hŷn yn cwmpo, datrys diffyg siwgr a chonfylsiynau).
- Datblygu Rhaglen Ymarferwyr Arbenigol drwy strategaeth glinigol a chynlluniau gweithlu.

Mae'r *Fframwaith Gyrfa Ôl-gofrestru i Nyrsio yng Nghymru* wedi'i lansio bellach ac mae'n darparu arweiniad i nyrsys unigol, sefydliadau addysgol a darparwyr gwasanaethau ar gynorthwyo a datblygu staff nyrsio ar bob lefel.

Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd wedi'i chomisiynu gan Lywodraeth y Cynulliad i nodi canllawiau ar gyfer nyrsys, bydwagedd, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a pharafeddygon yng Nghymru i gynorthwyo ymarferwyr sy'n gweithio ar lefel uwch. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu'r canllawiau a nodir yn y *Fframwaith Gyrfa Ôl-gofrestru i Nyrsio*.

### ***Dyddiad Targed: Mawrth 2011***

#### **6 (iii).**

Disgwylir i bob sefydliad weithio tuag at gyflawni cynnydd o 10% yn y gyfran o staff sy'n darparu gwasanaethau mewn lleoliad cymunedol **erbyn 2013**. Bydd angen cynyddu arferion gwaith hyblyg, gan gynnwys ehangu gofal y tu allan i'r diwrnod gwaith craidd; ailfodelu'r gymysgedd sgiliau i sicrhau'r arbenigedd proffesiynol gorau posibl a bod gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cael eu hyfforddi'n briodol i dderbyn dyletswyddau wedi'u dirprwyo; a datblygu swyddogaethau estynedig a newydd.

Byddwn yn cytuno ar linell sylfaen i fesur cynnydd yn erbyn y targed **erbyn Rhagfyr 2010**.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cenedlaethol i edrych ar gyfeiriad y gweithlu gofal cymdeithasol yn y dyfodol, sy'n cyd-fynd â Bwrdd Rhaglen Galluogi Moderneiddio'r Gweithlu sydd eisoes wedi'i sefydlu. Bydd y ffrydiau gwaith hyn yn archwilio'r mecanweithiau posibl sydd ar gael i gynyddu hyblygrwydd a'r aliniad rhwng y gweithluoedd iechyd a llywodraeth leol gyda chefnogaeth cyfres o safonau cenedlaethol a chynlluniau hyfforddi.

Byddant hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu ar y materion gweithlu sy'n deillio o unrhyw newidiadau gofynnol i fodolau gwasanaeth clinigol, e.e. gwaith 24/7, cynnydd mewn nyrsys cymunedol ac ati.

Byddwn yn cytuno ar ba mor gyflym y gwneir y newidiadau hyn gyda phob BILL fel rhan o'r cynlluniau Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid 5 mlynedd.

#### ***Dyddiad targed:***

- (i).** cytuno ar linell sylfaen (***Rhagfyr 2010***)
- (ii).** Cynnydd o 10% yn y gyfran o staff sy'n darparu gwasanaethau yn y gymuned (**2013**)

#### **6 (iv).**

Galwodd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad, gyfarfod o randdeiliaid allweddol ar 27 Mai 2010 o'r enw '**Gweithio mewn partneriaeth i wella darpariaeth gofal iechyd a chymdeithasol ar draws Cymru**' i fynd i'r afael ag adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru.

Themâu'r gynhadledd oedd:-

- Rôl strategol Galw Iechyd Cymru a sut roedd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid

- Sicrhau bod Galw Iechyd yn perfformio cystal ac mor effeithlon â phosibl ledled Cymru
- Rôl bosibl Galw Iechyd Cymru o fewn y system gofal heb ei drefnu

Bydd y wybodaeth a gasglwyd o'r digwyddiad yn darparu tystiolaeth i hysbysu trafodaethau pellach rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r GIG i bennu swyddogaeth Galw Iechyd Cymru yn y system gofal heb ei drefnu sydd wedi'i hailgynllunio.

***Dyddiad targed: Hydref 2010***

### **Argymhelliad 7**

**Gan weithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol, dylai'r byrddau Iechyd newydd gynnal adolygiad sylfaenol o'u gweithlu gofal heb ei drefnu er mwyn sicrhau bod cydbwysedd rhesymol rhwng y cyflenwad a'r galw yn y gwasanaethau a'r sectorau amrywiol. Yn arbennig dylent:**

- adolygu gweithgarwch a lefelau staffio yn eu prif arbenigeddau aciwt ac adrannau achosion brys gan ddefnyddio'r adnoddau archwilio a ddarperir yn fuan gan y Coleg Meddygaeth Frys;**
- ystyried maint y gweithlu gofal sylfaenol a'r defnydd a wneir ohono yn y system, er enghraifft lleoli meddygon teulu mewn adrannau achosion brys;**
- sicrhau bod argaeledd a phatrymau gwaith ymarferwyr nyrsio brys yn bodloni'r galw yn ddigonol;**
- ystyried cynyddu lefelau staff nyrsio lle mae'r pwysau ar adrannau achosion brys yn aml yn arwain at ymarferwyr nyrsio yn gorfod cyflawni rolau nyrsio craidd; a**
- chyflwyno gweithwyr proffesiynol arweiniol ar gyfer gofal heb ei drefnu i weithredu fel arweinydd mewn enw a phwynt cyswllt o ran ymgysylltu â'r gweithwyr proffesiynol yn eu maes; rhaid i weithwyr proffesiynol arweiniol gwmpasu'r system gyfan gan gynnwys yr holl broffesiynau sy'n angenrheidiol i ddarparu gofal heb ei drefnu mewn ffyrdd newydd**

**Derbyniwyd yr Argymhelliad**

### **Ymateb i'r Argymhelliad**

#### **7a-c**

Mae pob BILI wedi datblygu Cynllun Cyflenwi Lleol ar gyfer gofal heb ei drefnu sy'n nodi pwysigrwydd datblygu gweithlu sy'n addas i'r diben i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae pob BILI wrthi'n gwneud gwaith i adolygu gweithgareddau a lefelau staffio mewn unedau damweiniau ac achosion brys a'u trefniadau staffio cyfredol i sicrhau bod cyflenwad yn bodloni'r galw.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynorthwyo'r BILlau gyda'r gwaith hwn ac mae wedi gorchymyn set ddata ofynnol ar gyfer unedau damweiniau ac achosion brys, o fis Mawrth 2010. Mae'n ofynnol i bob BILI gyflwyno'r data hwn bob wythnos a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddadansoddi ac yn darparu gwybodaeth yn ôl i BILlau o ran y galw am wasanaeth, gweithgareddau a lle mae unedau damweiniau ac achosion brys yn torri'r rheolau a'r rhesymau dros hynny. Mae pob BILI yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i nodi patrymau galw am wasanaethau ac unrhyw fylchau o ran cyflenwad y gweithlu, a gweithredu ar hynny.

Fodd bynnag, mae hwn yn amlwg yn faes lle mae angen gwneud mwy o waith yn genedlaethol. Felly, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn trafod cynnydd hyd yma gyda phob sefydliad ac yn pennu pa gamau gweithredu y gellir eu cymryd i wella trefniadau cynllunio'r gweithlu ledled Cymru a pha gamau, os o gwbl, sydd angen eu cymryd ar unwaith gan Fyrddau Iechyd Lleol o ran lefelau staffio gweithredol.

***Dyddiad targed: Nodi statws presennol cynlluniau'r gweithlu a'u rhoi ar waith yn weithredol erbyn Awst 2010***

## **Argymhelliad 8**

**Argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad:**

**sicrhau bod y mesurau a ddatblygir ganddi ar hyn o bryd yn ymgorffori safbwynt system ehangach a sicrhau eu bod:**

- a.i. yn seiliedig ar archwiliad cynhwysfawr o'r galw am wasanaethau gofal heb ei drefnu;
  - ii. yn cydbwysu mynediad, ansawdd a chanlyniadau gan gydnabod yn arbennig yr angen i osgoi rheoli gwasanaethau clinigol gan gyfeirio at yr amser y mae achos o ddarparu gofal yn ei gymryd heb gyfeirio at ei ansawdd na'r canlyniad i'r dinesydd;
  - iii. yn cynnwys mesurau o berfformiad gwasanaethau iechyd a mesurau sy'n berthnasol i wasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus, yn enwedig y rhai a ddarperir neu a gomisiynir gan awdurdodau lleol.
  - iv. ar ôl mynd i'r afael yn gynaliadwy â'r amseroedd gormodol wrth drosglwyddo cleifion mewn unedau achosion brys, dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu a oes angen parhau i gofnodi amseroedd trosglwyddo; a
- b. sicrhau bod ei fframwaith rheoli perfformiad yn ddigon hyblyg i wneud sefydliadau lleol yn gyfrifol am ddatblygu eu mesurau allweddol o lwyddiant eu hunain wrth wneud newidiadau mwy hirdymor i'r system. Dylai Llywodraeth y Cynulliad archwilio'r mesurau lleol hyn a gwneud cymunedau'n atebol os ydynt yn methu datblygu eu mesurau allweddol o gynnydd eu hunain.

**Derbyniwyd yr Argymhelliad**

## **Ymateb i'r Argymhelliad**

### **8a(i-iii).**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu cyfres o dargedau Deallus ar gyfer gofal heb ei drefnu sy'n seiliedig ar effeithlonrwydd a chanlyniadau clinigol. Bydd y rhain yn ategu'r mesurau gweithgareddau a chynnyrch cyfredol. Datblygodd y Grŵp Craidd Targedau Deallus gyfres ddrafft o dargedau deallus ac mae wedi'u trosglwyddo i'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu, a fydd yn gyfrifol am ddatblygiadau terfynol a threialu, cyn ei chyhoeddi'n derfynol.

***Dyddiad Targed: Medi 2010***

### **8a(i-iv).**

Ar ôl i'r GIG gyflawni a chynnal y targed trosglwyddo cleifion 15 munud, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried y dull o gofnodi amseroedd trosglwyddo.

***Dyddiad Targed: Cyn gynted â bod y targed 100% ar gyfer trosglwyddo cleifion yn cael ei gyflawni***

### **8b.**

Mae Fframwaith Gwella Perfformiad y GIG yn ddigon hyblyg i alluogi sefydliadau'r GIG i ddatblygu mesurau perfformiad lleol sy'n benodol i'w cyd-destun a'u hanghenion lleol; y tu allan i ystod targedau cenedlaethol a dangosyddion perfformiad. Amlygir hyn gan y ffaith bod gan bob sefydliad y GIG amrywiaeth eang o fesurau lleol y tu hwnt i'r rhai a orchynnwyd yn genedlaethol. Fodd bynnag, bydd y manteision hyn yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am ddatblygu ymhellach Fframwaith Gwella Perfformiad y GIG ar ôl llunio targedau Deallus amrywiol.

***Dyddiad targed: Tachwedd 2010***